



'Place/wildlife', Mair Hughes, camlas Maldwyn, Cyngor Celfyddydau Cymru ac Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

Cyngor Celfyddydau Cymru

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Adroddiad Blynyddol 2017 - 2018




Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Moddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®



Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Rydym yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.



“Mae pobl yn bwysig. Mae ein gwerthoedd o garedigrwydd, tegwch a chreadigrwydd yn cynnal ein llesiant sy'n porthi datblygiad celfyddydol ein polisïau a'n diwylliant. Gwyddom ni fod gennym ni o hyd waith i'w wneud wrth newid ein hymddygiad, ein proses a'n gweithdrefnau o fod yn ddiwylliant patriarchaidd, hierarchaidd. Mae'n digwydd ond nid dros nos mae gwneud newid mor fawr. Mae artistiaid a meddylwyr creadigol bob tro yn torri drwyddo a chreu newid - dyna a wnawn ni. Mae trawsnewid yma i aros.”

Melanie Hawthorne, Aelod o'r Cyngor (bwrdd llywodraethol Cyngor Celfyddydau Cymru)
Cadeirydd, Grŵp Monitro Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Crynodeb

Deddfwriaeth bwysig yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd â'r nod o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu'n unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy, drwy saith amcan llesiant cenedlaethol a phum ffordd o weithio. Dan y ddeddfwriaeth, mae gan 44 corff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd statudol i ymgymryd â'r newid ac ymgorffori'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yn eu sefydliadau.

A ninnau'n asiantaeth sy'n datblygu celfyddydau Cymru, ni yw un o'r cyrff cyhoeddus yma. Rydym ni o'r farn fod gennym ni swyddogaeth arwyddocaol wrth wireddu'r amcanion llesiant ac rydym ni'n ymrwymedig i greadigrwydd, rhagoriaeth ac arloesedd.

Dyma'r saith amcan llesiant: **Cymru lewyrchus, Cymru wydn, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru o ddiwylliant bywiog a'r Gymraeg, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang**

Mae ddefnyddio'r **5 ffordd o weithio** yn gwneud inni gynllunio a meddwl yn y **tymor hir** am effaith ein penderfyniadau heddiw ar anghenion y dyfodol. I greu Cymru wytnach rhaid inni **gynnwys** pobl o gymunedau amrywiol, **cydweithio** â'n partneriaid a chynnwys amcanion **llesiant** cyrff cyhoeddus eraill gyda'n rhai ni. Ein huchelgais yw **atal** problemau rhag digwydd neu waethygu drwy ddefnyddio ein dysgu a'n profiadau blaenorol – a rhai eraill - i borthi'n gwaith.

Rydym ni'n ymrwymedig i roi'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy wrth wraidd ein gwaith - o reoli a chynnal ein swyddfeydd yn feunyddiol i ddatblygu polisïau, creu ein hisadeiledd corfforaethol, strategaethau cynllunio, hyfforddi ac ariannu.

Mae'r Cyngor yn cymryd ei dasg o fonitro ei waith o ddifrif. Gosodasom ni darged uchel iawn i ni ein hunain ac rydym ni'n hynod awyddus i ddiwallu ein rhwymedigaethau a hyrwyddo'r egwyddorion sydd ynghlwm wrth y ddeddfwriaeth. Rydym ni o'r farn eu bod nhw'n creu byd tecach, mwy cydymdeimladol a chreadigol. I Grŵp Monitro Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y dirprwywyd y cyfrifoldeb o fwrw'r gwaith yma rhagddo.

Cylch gorchwyl

Mae gwaith y Cyngor yn cael ei ddechrau, ei reoli a'i fonitro gan y Cyngor ei hun a thrwy gyfres o grwpiau monitro y mae'r Cyngor yn dirprwyo craffu ar feysydd arbenigol a strategol penodol. Mae'r grwpiau monitro'n ddarostyngedig i'r Cyngor yn ein strwythur llywodraethol. Mae ganddyn nhw swyddogaeth ymgynghorol i adrodd wrth y Cyngor am olrhain cynnydd a pherfformio'r gweithgareddau y maen nhw'n gyfrifol amdanyn nhw. Maen nhw hefyd yn tynnu sylw'r Cyngor at unrhyw anawsterau neu enghreifftiau o'r ymarfer gorau.

Swyddogaeth Grŵp Monitro Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

1. Adolygu, monitro a chyfrannu at ddatblygu polisiau a gweithdrefnau sy'n galluogi'r Cyngor i ddatblygu pethau'n gynaliadwy.
2. Cynorthwyo'r Cyngor a'i swyddogion i sicrhau bod gweithgareddau'r Cyngor yn y maes hwn yn gyson ag uchelgais Deddf Lles a Chenedlaethau Dyfodol Llywodraeth Cymru.
3. Cynorthwyo'r Cyngor a'i swyddogion wrth ymgorffori'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy'n agwedd feunyddiol ar fuddsoddiadau, prosesau a rhaglenni gwaith y Cyngor.
4. Cyfrannu at fonitro cydymffurfedd y Cyngor â phob gofyniad deddfwriaethol a statudol perthnasol gan gynnwys unrhyw ddyletswyddau cyffredinol a phenodol sy'n gysylltiedig gan gynnwys monitro ffactorau amgylcheddol.
5. Cynghori ynghylch datblygu, gweithredu a monitro prosiectau datblygu penodol.
6. Bydd y Grŵp yn gwneud yn siŵr y glynir at y swyddogaethau hyn drwy fabwysiadu'r canlynol:
 - a) Goruchwyllo'n weithredol effeithiolrwydd gweithgareddau'r Cyngor wrth ddangos ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy yn egwyddor lywodraethol sylfaenol
 - b) Monitro gweithredu gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol (gan gynnwys yr asesiadau o effaith amgylcheddol)

- c) Cyngori ynghylch mentrau sy'n cynnig cymorth ym maes hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i staff Cyngor Celfyddydau Cymru
- ch) Darparu cyngor ac arweiniad ynghylch dwyieithrwydd er budd artistiaid a sefydliadau celfyddydol
- d) Gwneud argymhellion i'r Uwch-dîm Arwain a'r Cyngor am unrhyw rai o'r uchod

Y siwrnai hyd yn hyn

Ymgysylltyddai Grŵp Monitro Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rheolaidd drwy'r flwyddyn i fonitro cynnydd. Mae'r Grŵp yn cymryd swyddogaeth drosfwaol o ran gofynion y Ddeddf Llesiant a'i rhwymedigaethau adrodd, strwythurau a phrosesau a gofynion swyddfa'r Comisiynydd Llesiant. Mae hyn yn cynnwys: gwaith cefnogi byrddau'r gwasanaeth cyhoeddus/awdurdodau lleol; cyfrannu at gynllunio corfforaethol; monitro ymgorffori ein polisi Datblygiad Cynaliadwy/amcanion Llesiant yn ein gwaith pob dydd.

A hithau'n drydedd flwyddyn o waith y grŵp, aethom ni ati eleni mewn ffordd ychydig yn wahanol. Ar ôl inni sefydlu'r broses, roeddem ni am graffu ar y 7 amcan a chyflawniadau'r Cyngor o ran y 5 ffordd o weithio. Roeddem ni wedi gwahodd swyddogion arweiniol a chyfarwyddwyr dros feysydd penodol (megis y Gymraeg, cydraddoldeb, addysg) i ymuno â'r grŵp i drafod cynnydd, anawsterau a rhwystrau. Roedd y grŵp wedyn yn gallu adrodd yn ôl i'r Cyngor a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol yn ein gwaith i sicrhau gwella parhaus yn ein gwasanaethau.

Felly roedd y grŵp wedi nodi materion a phryderon am ein cynnydd:

- gwaith Cymraeg - gan gychwyn menter ddatblygu newydd i fwrw ymlaen â'r gwaith yn y flwyddyn nesaf
- ymwneud â'r staff - gan gychwyn gwaith pellach am ymgorffori newid diwylliant a gwella cyfathrebu mewnol
- yr angen am well deialog a ffocws strategol o ran gwaith rhyngwladol a blaenoriaethau ar draws y sefydliad i gydbwysu cymhellion economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.

Diwallu ein cyfrifoldebau: Pa mor dda oeddem ni? Cymru ffyniannus

Penawdau allweddol

- Mae'r 67 sefydliad ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol
- Mae'n sector yn cyflogi pobl a hwn yw sector Prydain sy'n tyfu'n gyflymaf ar hyn o bryd
- Sgil gwerthfawr iawn yw creadigrwydd yn y byd busnes yn ôl Fforwm Economaidd y Byd a Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain

Cyflogaeth	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Cyfanswm gweithwyr yn sefydliadau'r Portffolio (gan gynnwys gwirfoddolwyr)	4,935	5,445	5,570	5,222	5,041
Cyfanswm gweithwyr yn sefydliadau'r Portffolio (ac eithrio gwirfoddolwyr)	3,704	4,135	4,217	3,937	3,681

Buddsoddi	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Cyfleoedd hyfforddiant a dysgu					
Nifer yr hyfforddeion yn sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru	72	61	45	37	31

Nifer y sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd gan sefydliadau'r Portffolio	4,163	4,189	7,372	6,512	5,474
Mynychiadau mewn sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd gan sefydliadau'r Portffolio	14,431	23,955	14,488	14,599	9,624

Arian a ddyrannwyd ar gyfer hyfforddi - sefydliadau					
Nifer y ceisiadau llwyddiannus	45	34	33	23	22
Cyfanswm a ariannwyd	£740,718	£677,657	£656,550	£519,585	£518,031

Arian a ddyrannwyd ar gyfer hyfforddi - pobl greadigol broffesiynol (datblygu proffesiynol)					
Nifer y ceisiadau llwyddiannus	34	19	28	17	15
Cyfanswm a ariannwyd	£44,621	£37,918	£60,776	£37,679	£26,029

Gweithgarwch sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru					
Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd gan sefydliadau'r Portffolio	16,964	21,747	18,336	24,026	22,364

Cymru wydn

Penawdau allweddol

Rhan o'n hymrwymiad i arweinyddiaeth yw ariannu sawl prosiect celfyddydol o gronfa'r loteri ar thema'r amgylchedd i dynnu sylw at faterion felly a sbarduno trafodaeth.

Er enghraifft, Arddangosfa'r Arfordir Bregus yn Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe a oedd yn cynnwys gwaith yr artist Julia Davis a'i lluniau digidol o'r môr a oedd wedi'u tynnu o'r awyr gyda thrac sain o fynyddoedd rhew'n toddi <http://www.ephemeralcoast.com/julia-davis/>

Llysgennad Cymru Greadigol ar ran y Cyngor yw Owen Griffiths. Mae ei weithiau a'i ymchwil â ffocws cymdeithasol gan ystyried tir âr, pensaernïaeth gynaliadwy, trefolaeth, lleoedd addysgu a chydweithio am amddiffyniad amgylcheddol. Mae prosiectau'r gorffennol yn cynnwys [Llysiâu'r Fets](#), [Gŵyl Syniadau](#), [Dyfodol y Fets](#) ac [Er mwyn Gwenyn](#).

Mae memoranda dealltwriaeth ar waith gyda sefydliadau amgylcheddol megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd a Chanolfan y Dechnoleg Amgen i fuddsoddi mewn artistiaid preswyl er mwyn adrodd stori ein lleoedd naturiol.

Rydym ni'n rhoi blaenoriaeth i geisiadau loteri i brosiectau gan artistiaid sy'n archwilio themâu amgylcheddol i hyrwyddo trafodaeth ac ennyn diddordeb am y materion sy'n bygwth ein planed.

Cymru iachach

Penawdau allweddol

Rydym ni wedi llofnodi memorandwm dealltwriaeth gyda Chydffederasiwn y GIG yng Nghymru i ddatblygu'r cysylltiadau rhwng y celfyddydau a gwell iechyd a llesiant.

Rydym ni wedi nodi'r Celfyddydau ac Iechyd yn brif faes datblygu maes yn ein cynllun corfforaethol nesaf.

Rydym ni cefnogi'r lluo o brosiectau celfyddydol ac iechyd - o Ddawns dros Glefyd Parkinson i brosiectau celfyddydol i bobl ifainc â phroblemau iechyd meddwl - drwy gronfa gelfyddydol y loteri.

Rydym ni wedi sefydlu partneriaeth gelfyddydol gref gyda dau fwrdd iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg a phartneriaethau sy'n dod i'r fei gydag eraill.

Cymru fwy cyfartal

Penawdau allweddol

Mae gennym Gynllun Strategol Cydraddoldebau ar waith sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd gan ein Grŵp Monitro Cydraddoldebau.

Rydym ni'n rhan o'r bartneriaeth strategol sy'n cefnogi'r rhaglen Cyfuno mewn cymunedau. I ni mae gwella ein perfformiad o ran cydraddoldebau yn flaenoriaeth i'n sector yn ystod cyfnod y Cynllun corfforaethol.

Sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru

Nodweddion gwarchodedig			2015/16	2016/17	2017/18
Digwyddiadau sy'n targedu:			Nifer	Nifer	Nifer
Pobl anabl			875	791	810
Pobl dduon ac ethnig			275	339	393
Plant a phobl ifainc			1,461	2,525	3,212
Pobl hŷn (oed 50+)			319	283	3,675
Pobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol			511	71	286
Menywod beichiog a mamau newydd			410	451	277
Pobl grefyddol neu at ddibenion crefyddol arall			7	21	107
Pobl drawsrywiol sydd wedi cael neu yn cael ailbennu eu rhywedd			41	26	41
Cyfanswm y digwyddiadau targedol			3,899	4,396	8,801

Sesiynau ymgyfranogol sy'n targedu:			Nifer	Nifer	Nifer
Pobl anabl			11,127	4,167	3,978
Pobl dduon ac ethnig			317	1,349	693
Pobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol			1	142	76

Pobl hŷn (oed 50+)			1,709	1,636	1,678
Menywod beichiog a mamau newydd			39	126	132
Pobl grefyddol neu at ddibenion crefyddol arall			81	16	39
Pobl drawsrywiol sydd wedi cael neu yn cael ailbennu eu rhywedd			2	107	76
Plant a Phobl Ifainc			42,545	37,953	37,572
Cyfanswm y sesiynau ymgyfranogol targedol			55,821	45,496	44,204

Cyflogaeth yn sefydliadau Portffolio		2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Cyfanswm y gweithwyr anabl		65	102	102	181
Cyfanswm y gweithwyr duon ac ethnig		163	136	159	119
Cyfanswm y bobl lesbiaidd, hoyw neu		113	120	134	133
Cyfanswm y bobl hŷn		602	805	729	850
Cyfanswm y bobl â chredoau crefyddol		70	157	202	230
Cyfanswm y merched sy'n feichiog neu ar		36	43	40	41
Cyfanswm y bobl drawsrywiol		0	*	*	*

*cuddir unrhyw gelloedd gyda llai na 5 i gadw

Byrddau rheoli'r sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Cyfanswm y bobl anabl ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol	25	17	17	16
Cyfanswm y bobl dduon ac ethnig ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol	11	8	12	10
Cyfanswm y lesbiaid, hoywon neu ddeurywolion ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol	34	22	16	19
Cyfanswm y bobl hŷn (dros 50 oed) ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol	386	360	377	407
Cyfanswm y bobl grefyddol ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol	31	20	27	20
Cyfanswm y menywod sy'n feichiog neu sydd ar gyfnod mamolaeth ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol	*	5	6	*
Cyfanswm y bobl drawsrywiol ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol	*	0	*	*

*cuddir unrhyw gelloedd gyda llai na 5 i gadw cyfrinachedd yr unigolion

Cymru o gymunedau cydlynus

Penawdau allweddol

Rydym ni'n cefnogi ein rhaglen Noson Allan sy'n helpu cynnal 511 perfformiad mewn lleoliadau cymunedol ledled Cymru – sy'n gynnydd bach ar y llynedd.

Rydym ni'n parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen, Creu Cymunedau Cyfoes, sy'n archwilio sut y byddwn ni'n gallu rhyddhau a chefnogi asedau creadigol ein cymunedau.

Ledled Cymru rydym ni'n cefnogi ystod o leoliadau a rhaglenni megis Cyfuno sy'n rhan bwysig o'u cymunedau. Rydym ni'n eu hannog i gynyddu eu hymwneud.

Cymru o ddiwylliant bywiog a Chymraeg sy'n ffynnu

Penawdau allweddol

Dyma beth rydym ni'n ei wneud. Mae'n faes arbenigol inni ond, drwy weithredu y 5 Ffordd o Weithio yn ein gwaith pob dydd, rydym ni'n cyrraedd rhagor o bobl a chreu rhagor o gyfleoedd i ddod â chreadigrwydd a dychymyg ym mhob agwedd ar fywyd Cymru a chyflawni ein cenhadaeth o roi'r celfyddydau wrth wraidd bywyd a llesiant Cymru.

Rydym ni'n sylweddoli bod gan y sector creadigol swyddogaeth bwysig i'w chwarae wrth annog y defnydd o'r Gymraeg drwy ei gwneud yn hygyrch, yn hwyl ac yn rhan o fywyd cymunedol. Mae gennym ni hefyd ymrwymiad i sicrhau bod artistiaid a phobl greadigol broffesiynol Gymraeg yn medru cynnal gyrfa yn eu dewis iaith. Blaenoriaeth arall ein cynllun yw cynyddu lefel y gwaith yn y Gymraeg.

Mae'r data'n dangos bod rhagor gennym ni i'w wneud o ran cael cyfleoedd ehangach i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddyn nhw. Mae rhwystrau cymdeithasol mewn lleoedd celfyddydol traddodiadol megis theatrau ac orielau. Rydym ni'n gweithio gyda'n portffolio drwy ein cynllun cydraddoldeb strategol, ein rhaglen wytnwch a'n cynllun corfforaethol i sicrhau tyfu nifer y bobl sy'n cael budd o sector celfyddydol bywiog ac ymroddgar.

Arolygon Omnibws

Mynychu a chymryd rhan:	2013	2014	2015	2016	2017
Canran oedolion Cymru sy'n mynychu digwyddiadau	75.1	79.8	78.6	78.1	80.7
Canran plant/pobl ifainc Cymru sy'n mynychu	85.4	85.9	88.7	82.9	86.5
Canran oedolion Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau	34.9	40.1	41.2	44.1	45.8
Canran plant/pobl ifainc Cymru sy'n ymgyfranogi o'r	84.3	82.3	88.5	86.3	87.4

Safle cymdeithasol:					
Canran oedolion ABC1 Cymru sy'n mynychu	83.7	87.6	84.8	85.2	86.4
Canran oedolion C2DE Cymru sy'n mynychu	68.8	74.2	74.6	70.8	75.0
Canran plant/pobl ifainc ABC1 Cymru sy'n mynychu	88.5	88.9	90.5	87.9	89.5
Canran plant/pobl ifainc C2DE Cymru sy'n mynychu	82.4	83.4	87.0	78.5	84.3
Canran oedolion ABC1 Cymru sy'n ymgyfranogi o'r	43.2	48.4	45.8	51.5	52.1
Canran oedolion C2DE Cymru sy'n ymgyfranogi o'r	28.8	34.1	38.3	36.3	40.1
Canran plant/pobl ifainc ABC1 Cymru sy'n ymgyfranogi	86.5	83.2	89.8	90.8	88.5
Canran plant/pobl ifainc C2DE Cymru sy'n ymgyfranogi	82.1	81.5	87.3	82.3	86.5

Rhywedd:	2013	2014	2015	2016	2017
Canran dynion Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn	74.0	79.1	76.7	75.8	78.9
Canran menywod Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn	76.1	80.5	80.5	80.3	82.3
Canran bechgyn/pobl ifainc gwrywaidd Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn	83.4	84.3	86.0	80.4	83.4
Canran merched/pobl ifainc benywaidd Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn	87.7	87.7	91.6	85.9	89.7
Canran dynion Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn	31.9	40.3	37.6	39.0	41.1
Canran menywod Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn	37.8	40	44.6	48.9	50.2
Canran bechgyn/pobl ifainc gwrywaidd Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn	83.2	80.8	87.8	82.3	85.6
Canran merched/pobl ifainc benywaidd Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn	85.6	83.9	89.3	90.4	89.2

Yn y Gymraeg:					
Canran oedolion Cymraeg Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn	82.6	81.0	80.7	79.6	90.6
Canran oedolion di-Gymraeg Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn	72.3	79.5	77.9	77.7	77.4
Canran plant/pobl ifainc Cymraeg Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn	89.1	90.6	88.4	86.8	89.9
Canran plant/pobl ifainc ddi-Gymraeg Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn	83.1	83.0	88.9	80.4	84.9


Canran oedolion Cymraeg Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn	44.2	47.2	48.9	50.0	52.7
Canran oedolion di-Gymraeg Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn	31.4	38.2	38.1	42.3	43.5
Canran plant/pobl ifainc Cymraeg Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn	88.4	83.4	90.3	90.6	89.9
Canran plant/pobl ifainc di-Gymraeg Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn	81.7	79.7	87.4	83.5	85.9

Cyfrifoldeb Byd-eang Cymru


Penawdau allweddol

Rydym ni wedi cadw ein statws Lefel 5 o'r Ddraig Werdd

Rydym ni'n ystyried effaith amgylcheddol pob un o'n penderfyniadau a'n polisiau allweddol.



Darperir ein Rhaglen *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*, a ddechreuodd yn 2015/16, drwy ysgolion ledled Cymru. Yn anochel mae hyn yn ychwanegu at ein lefelau teithio gan esgor ar 8 tunnell fetrig o garbon deuocsid cyfatebol a gynhwysir yn y cyfansymiau a adroddwn ar gyfer 2017/18 (2016/17: 8 tunnell fetrig).



Rheoli gwastraff

Gwastraff	2017/18	2016/17
Gwastraff:		
Anariannol (tunelli metrig)		
Safle tirlenwi	0.13	0.12
Ailddefnyddio/ailgylchu	3.37	2.74

Defnyddio ynni

Ynni	2017/18	2016/17
Allyriadau nwy tŷ gwydr (tunelli metrig o garbon deuocsid cyfatebol)		
Allyriadau yn eu crynswth, cwmpas 2 a 3 (anuniongyrchol)	44	57
Defnyddio ynni (awr gilowat)		
Trydan (adnewyddadwy)	108,424	123,359
Nwy	10,464	7,381
Dangosyddion ariannol (£)		
Gwariant - ynni	15,468	14,521
Costau cyflenwi dŵr (ystâd y swyddfa) – ar hyn o bryd nid allwn eu hasesu am y cynhwysir hwy yn y tâl am wasanaeth	Amherthnasol	Amherthnasol

Teithio'r staff

Teithio'r staff	2017/18	2016/17
Allyriadau teithio (tunelli metrig o garbon deuocsid cyfatebol)		
Trên	8	10
Awyren 1	33	64
Ceir/faniau	27	24
Cost teithio (£)		
Trên	30,413	28,081
Awyren	12,604	24,935
Ceir/faniau	40,126	34,905
Teithio (milltiroedd)		
Trên	107,476	130,946
Awyren	127,876	256,538
Ceir/faniau	88,218	76,106

Peri bod newid yn digwydd

Beth a ddysgasom?

Yn ystod y flwyddyn dysgasom y canlynol:

- mae craffu ar ein data'n rheolaidd wedi'n hannog i feddwl yn greadigol - am sut i leihau ein hallyriadau carbon ond hefyd sut i wneud pethau'n well. Mae hefyd wedi tynnu ein sylw at ffyrdd o wella sut rydym ni'n casglu a defnyddio data i'w wneud yn fwy effeithiol yn ein hymdrech i wella'n barhaus feysydd a nodir yn y ddeddfwriaeth.
- Mae'r Cyngor a'r staff yn cefnogi i'r carn yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy. Rydym ni'n awyddus i wneud cyfraniad cadarnhaol at y ddeddf gan ddefnyddio ein sefyllfa o rym er da a rhannu'r grym yna'n fwy.
- Dylem ni dreulio rhagor o amser i ddweud wrth ein staff am y ddeddf a'n dyheadau i gynyddu eu hyder i eiriol dros y syniad.
- Y pwysigrwydd o fod yn ddewr. Beth sy'n ymddangos ar yr olwg gyntaf i fod yn anodd ac anghyfarwydd yn mynd yn arferol yn ddigon buan, er enghraifft, didoli gwastraff a phwysigrwydd y 5 Ffordd o Weithio.
- Pwysigrwydd cael fframwaith cynllunio clir ar waith a ffyrdd o gyfathrebu ynddo.
- Defnyddio'r hyn sy'n gweithio'n barod er enghraifft sesiynau un-wrth-un i'r staff i drafod cynaliadwyedd
- Roedd prif ffrydio'r 7 Amcan Llesiant i'n Cynllun Gweithredol y llynedd yn ei wneud yn anodd o ran monitro ac adrodd. Rhaid inni ailystyried hyn – yn enwedig wrth inni ddatblygu cynllun corfforaethol newydd .
- Mae'n rhaglen Creu Cymunedau Cyfoes yn dod i ben ac mae'r gwerthusiad ohoni'n dangos pethau pwysig am gydweithio, gwranddo ar ddefnyddwyr ac integreiddio'r celfyddydau mewn meysydd eraill sy'n berthnasol i'r ddeddf (gweler Llun 1)

Sut byddwn ni'n gallu parhau i wella?

- Sicrhau ein bod ni'n parhau i rannu gwybodaeth yn fewnol ac allanol drwy weithredu'n effeithiol ein Strategaeth Cyfathrebu ac Eiriolaeth newydd
- Parhau i gryfhau'r cysylltiadau â gwaith ein grwpiau monitro eraill i osgoi dyblygu gwaith
- Parhau i weithio gyda'n Portffolio i wella ein perfformiad amgylcheddol a chynaliadwyedd cyffredinol.

- Mae ein data monitro cyfredol yn dangos nad ydym ni wedi gwneud cynnydd o ran gwneud byrddau a chyrff llywodraethu'n fwy cynrychioladwy o'r gymuned ehangach. Byddwn ni'n gwneud pethau i newid hyn
- Sicrhau bod ein penderfyniadau am ariannu'n ystyried datblygu cynaliadwy.
- Lle mae agendâu'n cydblethu, parhau i integreiddio ein gwaith â gwaith cyrff cyhoeddus eraill gan gynyddu nifer ein cydweithiadau a'n partneriaethau
- Parhau i wrando ar ein staff, ein rhanddeiliaid a'n buddiolwyr a bod yn barod i weithredu a newid pethau.
- Gweithio ar barhau i ymgorffori'r Bensaernïaeth er Datblygu Cynaliadwy yng Nghyngor y Celfyddydau (Atodiad 1)
- Gweithio tuag at sicrhau bod ffyrdd o werthuso ein Cynllun Gweithredol yn ôl yr amcanion llesiant yn effeithiol fel nad yw'n ymarfer gwag ar bapur.
- Sicrhau bod ein cynllun corfforaethol newydd yn cynnwys y 7 amcan llesiant a'r 5 ffordd o weithio.
- Cydweithio â'r sector celfyddydol Cymraeg i ddatblygu rhagor o waith o safon yn yr iaith i ddenu a chadw cynulleidfaoedd, gan greu cyfleoedd i artistiaid o ran sefydlu a datblygu gyrfa drwy'r Gymraeg.
- Cymryd yr hyn a ddysgwyd o Greu Cymunedau Cyfoes ymlaen yn ein gwaith gyda chymunedau. (Gweler astudiaeth achos isod).

Astudiaeth achos: Beth oeddem ni wedi'i ddysgu o Greu Cymunedau Cyfoes?



Cymdeithas Gŵyl Maendy / Dod o Hyd i Faendy Creu Cymunedau Cyfoes

Roedd y Cyngor wedi lansio *Creu Cymunedau Cyfoes* yn 2014 yn rhaglen ddatblygu hirdymor. Ei nod oedd buddsoddi mewn nifer bach o brosiectau partneriaethol i brofi modelau newydd o adfywio a chydweithio cymunedol drwy'r celfyddydau. Roeddem ni wedi dewis 7 prosiect ledled Cymru drwy gystadleuaeth 2 gam, gyda phartneriaid amrywiol fel cymdeithasau tai a datblygwyr masnachol.

Prif bwyntiau dysgu:

1. Hyd yn hyd rydym ni wedi gweld diffygion cymunedau – beth sydd angen arnyn nhw/beth sydd eisiau - ond mewn gwirionedd, mae ganddyn nhw asedau a sgiliau sy'n gallu tyfu a datblygu'n rhai gwerthfawr. Mae cysylltu â llawr gwlad yn hanfodol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'n thema allweddol i'r Cyngor - newid o'r sefyllfa lle daw pob newid o'r brig mewn ffordd batriarchaidd. Mae'n bwysig cydweithio â chymunedau'n gynhwysol a chynrychiadol a pheidio â gwneud pethau iddyn nhw.
2. Twf organaidd ac araf - rhaid peidio ag ildio i'r temtasiwn o gyflawni pethau'n rhy gyflym drwy eu diffinio o'n pen a'n pastwn ein hunain ac wedyn taflu arian atyn nhw. Rhaid inni weithio dros gyfnod hir gyda chymuned i ennyn ffydd a dysgu cydweithio i greu canlyniadau sydd wrth fodd y gymuned yn hytrach nag wrth fodd yr arianwyr yn unig.

3. Mae hyn i gyd yn dibynnu ar bartneriaeth gref o sefydliadau. Mae sefydlu partneriaethau cadarnhaol a chynhyrchiol yn cymryd amser, egni ac adnoddau ond ni fydd dim byd o werth yn digwydd nes sefydlu cydweledigaeth a chydarnogion a bod pob partner wedi cyfrannu at hynny.
4. Ariannu ar gyfer y tymor hir – roedd peri bod arian ar gael dros gyfnod o 3 blynedd heb ar y cychwyn ddiffinio canlyniadau a phrosesau wedi cael effaith ar y gwir ganlyniadau Roedden nhw'n annisgwyl ac roedden nhw'n costio lawer yn llai na rhywbeth sydd wedi'i gynllunio yn y ffordd arferol. Rydym ni hefyd wedi arbed capasiti mewnol ac allanol drwy weithio'n bytiog.
5. Mae creadigrwydd a dychymyg yn bwysig iawn mewn gwaith adfywio ystyrllon – o ddylunio lleoedd cyhoeddus i ryddhau gallu'r cymunedau i fynegi eu dyheadau am eu dyfodol.
6. Diwydiannau creadigol yw un o sectorau Prydain sy'n tyfu'n gyflymaf. Ni all robotiaid ail-greu creadigrwydd. Creadigrwydd yw un o swyddogaethau olaf yr ymennydd i gilio mewn afiechyd. Mae'n offeryn pwysig i rymuso ein cymunedau sydd dan yr anfantais fwyaf.
7. Cafodd esblygiad Creu Cymunedau Cyfoes ei ddylanwadu'n fawr gan 5 ffordd i lesiant Sefydliad yr Economeg Newydd <http://neweconomics.org/2008/10/five-ways-to-wellbeing-the-evidence/>
Trodd y rhain, dros oes Creu Cymunedau Cyfoes, yn Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a aeth yn gyfraith yn Ebrill 2016. Mae'r dysgu a ddaeth o Greu Cymunedau Cyfoes yn berthnasol i weithredu'r ddeddf. Mae'n ddyletswydd ar 44 corff cyhoeddus yng Nghymru.
8. Cymuned yr artistiaid: roeddem ni - arianwyr, cynhyrchwyr, cydlynwyr ac artistiaid - wedi dysgu llawer am weithio mewn partneriaeth. Roedd y dysgu'n mynd y ddwy ffordd a rhaid i artistiaid addasu a symud yn sylweddol mewn ymateb i gymunedau.
9. Roedd y prosiectau wedi'u dewis i brofi partneriaethau gyda sefydliadau a oedd yn wahanol i'n rhai arferol, er enghraifft cymdeithasau tai, datblygwyr masnachol, gweithredwyr lleol ac adrannau adfywio'r awdurdodau lleol (yn wahanol i dimoedd datblygu'r celfyddydau yno).

Atodiad 1

Pensaernïaeth Datblygu Cynaliadwy at y Dyfodol

Gweddu	
Cyn	Ar ôl
Roeddem yn arfer meddwl bod hyn yn wir...	Ond erbyn hyn mae gennym dystiolaeth bod...
Ymgynghoriad Mae arnom angen meddwl am yr hyn sy'n bosibl, wedyn gofyn yn ffurfiol i'r cyhoedd amdano, addasu ein barn yn sgil y sylwadau hyn, cynghori ein Gweinidog neu'n Prif Weithredwr ynghylch ffyrdd posibl o fynd ymlaen, dyfeisio dulliau gweithredu ac ymgynghori eto am y rhain, yn ôl i'r Gweinidog am gymeradwyaeth ac yn y blaen.	Cydgynhyrchu Rhaid inni siarad yn gynnar â swyddogion, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau i'w tynnu i mewn. Rhaid inni gyflawni ein cenhadaeth drwy gydweithio ag eraill i ddatblygu rhannu cydganlyniadau, cydbrosiectau a chydfechanwaith adrodd.
Ymyrryd Mae arnom angen ymyrryd i dorri arfer afiach neu drwsio rhywbeth a dorrwyd; seiliedig ar fodel claf-arbenigwr, dioddefwr-cynorthwydd neu broblem-ateb.	Atal Mae arnom angen cydweithio i gynyddu rhyngddibyniaeth rhwng dinasyddion a'r sector cyhoeddus. Gellir newid ymddygiad yn fwy llwyddiannus os oes gan bobl berchnogaeth uniongyrchol a defnyddio eu profiad eu hunain a phrofiad eraill yn ymgyfranogwyr cyfartal, yn hytrach na bod yn gwsmeriaid dan ddylanwad gwasanaethau neu ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd.
Gweithio'n ynysig Yr unig adborth rydw i'n gwrando arno yw adborth am fy maes i. Hyd yn oed os mai fi yw'r unig gynrychiolydd o'm sefydliad yn yr ystafell; mae materion eraill ar gyfer pobl eraill, nid fi.	Cyfrifoldeb Mae pob adborth yn gyfle dysgu. Os caf adborth am unrhyw agwedd ar waith fy sefydliad, mae gennyf gyfrifoldeb am nodi pwy sydd â diddordeb yn yr agwedd honno ar ein gwaith, trosglwyddo'r neges yn bersonol a helpu os gallaf.

Effaith	
Cyn	Ar ôl
Roeddem yn arfer meddwl bod hyn yn wir...	Ond erbyn hyn mae gennym dystiolaeth bod...
<p>Problemau</p> <p>Datrysir problemau drwy eu datgymalu i'w rhannau unigol, creu asiantaethau ac atebion penodol i ddatrys pob rhan a mynd i'r afael â phob anhawster ar wahân.</p>	<p>Lleoedd</p> <p>Mae arnom angen dechrau drwy ystyried effeithiau cyfunol ein gweithrediadau yn y byd go iawn; cael gwybod rhagor am y cyfleoedd yn y cysylltiadau rhwng y bobl, y lleoedd a'r cymunedau a effeithir; rhannu ein gwybodaeth a datblygu ffyrdd integredig sy'n ceisio datrys sawl her.</p>
<p>Atebion tymor byr</p> <p>Yn seiliedig yn y model derbynnydd/defnyddiwr y darparwn restrau dewis o wasanaethau neu ymyriadau gyda'r nod o ddelio â symptomau yn hytrach na'r achosion gwaelodol heb unrhyw hyblygrwydd i gleientiaid neu broffesiynolion.</p>	<p>Perthynasau hir dymor</p> <p>I ddatrys problemau dyrys, mae arnom angen pawb wrth y bwrdd; mae gan y derbynnydd neu'r cwsmer gymaint i'w gynnig ag y sydd gan yr arbenigwr. Mae arnom angen ymroi i bobl i gael gwybod beth yw cryfderau pawb ac adeiladu arnynt a chynyddu ymddiriedaeth.</p>
<p>Mesuro</p> <p>Mae arnom angen meddwl am ba wybodaeth a thystiolaeth mae arnom eu hangen ar gyfer pob prosiect neu bolisi unigol a sefydlu contractau i gael hyn drwy ddylunio prosiectau ymchwil o'r newydd.</p>	<p>Synhwyro</p> <p>Mae arnom angen mwyafu defnydd y wybodaeth sydd eisoes yn bodoli a ffynonellau hir dymor o ddata a datblygu gwybodaeth a sgiliau arbenigwyr a phobl gyffredin drwy integreiddio gwyddoniaeth ac ymchwil (eu datblygiad a'u defnydd) yn ein polisi a'n gwaith.</p>

Cost	
Cyn	Ar ôl
Roeddem yn arfer meddwl bod hyn yn wir...	Ond erbyn hyn mae gennym dystiolaeth bod...
<p>Effeithlonrwydd</p> <p>I gyflawni canlyniadau mae arnom angen sicrhau bod popeth mor fawr, mor syml ac mor gyflym â phosibl, gan ddefnyddio'r adnoddau lleiaf posibl; gan gynnwys adnoddau dynol.</p>	<p>Gwytnwch</p> <p>Mae arnom angen bod yn effeithlon gyda'n defnydd o adnoddau corfforol drwy ddylunio a saernïo cylch bywyd cyfan; lleihau, aildefnyddio, ailgylchu. Ar gyfer adnoddau naturiol a dynol mae arnom angen cynyddu gwytnwch, hynny yw, ein gallu hir dymor i ymdopi â newid drwy ddysgu parhaus.</p>
<p>Lleihau perygl</p> <p>Rhodddwn ein ffydd mewn cofnodion perygl a ddyluniwyd yn ofalus a phrosesau manwl sy'n ein hamddiffyn rhag beirniadaeth a nodi achos unrhyw fethiant ar ôl iddo ddigwydd.</p>	<p>Rheoli perygl</p> <p>Dim ond drwy fentro y gallwn ddysgu a gwella. Mae cynyddu ein dealltwriaeth o'r peryglon hir dymor sylweddol sy'n ein hwynebu'n awr ac yn y dyfodol yn ein cynorthwyo i gynyddu ein hawydd i fentro yn y byr dymor mewn ffordd a reolir yn briodol.</p>
<p>Negodi</p> <p>Mae arnom angen bargeinio i dalu'r lleiaf am y mwyaf posibl.</p>	<p>Rhodddion</p> <p>Mae arnom angen bod yn hael gyda'n hamser, ein hymdrechion a'n sgiliau wrth fod, ar yr un pryd, yn glir am egwyddorion datblygu cynaliadwy megis yr angen i amddiffyn a gwella asedau Cymru (cyfalaf cymdeithasol, corfforol ac amgylcheddol).</p>

Mecanwaith	
Cyn	Ar ôl
Roeddem yn arfer meddwl bod hyn yn wir...	Ond erbyn hyn mae gennym dystiolaeth bod...
Grym Mae arnom angen meddwl yn fanwl, fanwl am yr hyn a wnawn wedyn cael arian ac argyhoeddi eraill i'w wneud.	Chwarae Mae arweinyddiaeth yn digwydd ymhob man. Mae arnom angen rhannu tystiolaeth a chydweithio i nodi'r ffordd orau ymlaen sydd wedi'i chydlynu; creadigrwydd yw'r allwedd.
Cynyddu Mae arnom angen creu modelau/prosiectau y gellir eu copïo'n hawdd a'u hatgynhyrchu bob man arall.	Ysbrydoli Mae arnom angen dysgu oddi wrth arbrofion go iawn ar lawr gwlad a'u defnyddio i ysbrydoli eraill mewn lleoedd eraill i ymgymryd â ffyrdd tebyg, ond gwahanol, o weithio.
Gwirio Mae arnom angen cynllunio a monitro mor fanwl â phosibl, ar bapur neu'n drydanol, i sicrhau bod pob agwedd yn cael ei diwallu mewn da bryd.	Llif Mae arnom angen digon o broses (a dim gormod) i gefnogi pawb i gyflawni'r canlyniadau drwy geisio, methu ac ail-geisio; mesuro llwyddiant, dysgu gwersi a darganfod rhagor fel yr awn ymlaen.

Rheolwyr	
Cyn	Ar ôl
Roeddem yn arfer meddwl bod hyn yn wir...	Ond erbyn hyn mae gennym dystiolaeth bod...
Arwr Credwn mai ni yw'r unig rai a all ddatrys y broblem; dim ond imi weithio oriau hwy, dysgu'r dechneg newydd neu newid fy arferion gwael. Neu credwn y daw rhyw arwr o'r gwyll i'n harbed.	Lletywr Ni allwn ei wneud ar ein pen ein hunain. Os gwahoddwn bobl amrywiol i ddod at ei gilydd a chynnal sgysiau am broblemau go iawn, wedyn yr ydym yn creu, rheoli a darparu atebion a fydd yn parhau. Mae arnom angen ymarfer a datblygu ein sgiliau o ran cynnwys pobl.
Cysondeb corfforaethol I fod yn llwyddiannus mae ar bawb angen cydymffurfio â'r un patrymau ac ymddygiadau biwrocraidaidd sylfaenol.	Gwerthfawrogi amrywiaeth I fod yn wydn mae arnom ni angen gweithlu amrywiol a brwd gydag awydd i ddysgu ac ymrwymiad i werthoedd a blaenoriaethau'r Cyngor o ran cydraddoldebau.